## YR ATODLEN

### Tanwyddau Awdurdodedig

**23.** Brics glo Cosyglo Smokeless a weithgynhyrchir gan Arigna Fuels yn Arigna, Carrick-on-Shannon, County Roscommon, Iwerddon—

(a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 35 i 50% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (hyd at tua 45% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (hyd at tuag 20% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr starts neu rwymwr organig arall (hyd at 5% o'r cyfanswm pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a thrin â gwres o tua 250°C;

(c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd sydd tua 80 o filimetrau o hyd, 60 o filimetrau o led a 40 o filimetrau o uchder;

(d) sy'n pwyso 110 gram ar gyfartaledd; ac

(e) nad yw mwy nag 1.8% o gyfanswm eu pwysau sych yn sylffwr.